# **Cyngor Cymuned Llandderfel.**

Cyfarfu'r Cyngor Nos Lun, Tachwedd 1af 2021 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Maldwyn Jones, Gary Thomas, Bethan Thomas, Meilir Jones, Dewi Pritchard a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eifion Davies, Gwenda Evans, Gwynedd Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**
a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-
i) Cafwyd cadarnhad y byddai'r Arolygwr Priffyrdd yn cadw golwg ar y ffos ger Cwm Cottage.
ii) Tail gwartheg ar y ffordd gefn wrth Llwyn Ci i lawr am Lanfor, roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi cael gair gyda'r tirfeddiannwr ac roeddynt am drefnu i lanhau'r ffordd yn rheolaidd.
iii) Cais am gyfyngiad cyflymder 20 m.y.a. i bentref Llandderfel – roedd y cais wedi cael ei anfon ymlaen i'r Uned Drafnidiaeth yng Nghaernarfon.
iv) Wal ochr isa' i Fryn Melyn, Llandderfel wedi disgyn - y mater wedi cael ei anfon ymlaen i Ymgynghoriaeth Gwynedd.
v) Pant yn y ffordd cyn cyrraedd y gornel gyferbyn a Aefren, Llanfor- cyfarwyddyd wedi ei anfon i'r gweithlu ymgymryd â'r gwaith.
vi) Canllaw ger y stepiau newydd ar stad Tan y Foel, Llanfor - cafwyd cadarnhad y byddant yn ymgymryd â'r gwaith yn fuan.
vii) Dwr yn hel ger Pen Isa'r Llan, Llanfor - cafwyd cadarnhad fod yr Arolygwr Priffyrdd wedi gofyn i'r tirfeddiannwr wneud gwelliannau i rwystro'r dŵr ddod i'r ffordd.

b) Mynwentydd.
Cafwyd diweddariad gan y clerc o'r gwaith ym mynwent Llandderfel. Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu a Chyngor Gwyned ynglŷn a chael cyngor i osod arwydd i'r fynwent. Cytunwyd fod angen ail hysbysebu'r gwaith torri glaswellt yn y mynwentydd ac i'r clerc holi am bris i osod hysbyseb yn y papur lleol. Cytunwyd i wneud archwiliad llawn o'r mynwentydd yn y gwanwyn.

c) Cofrestru Cae Chwarae Frongoch.
Cytunwyd i dalu'r ffi am gofrestru'r tir.

ch) Lloches bws i bentref Frongoch.
Cafwyd diweddariad gan y clerc, roedd Cyngor Gwynedd wedi rhoi caniatâd i'w osod ac roedd y clerc wedi derbyn pris gan y cwmni llochesi bws roedd Cyngor Gwynedd yn ei argymell. Cytunwyd i ofyn i'r contractwyr am bris i osod pad concrid. Roedd cais ariannol wedi cael ei gyflwyno ac os byddai'n yn llwyddiannus cytunwyd i'r clerc i'w archebu ac ariannu gweddill o'r gost allan o'r arian sydd wedi ei neilltuo ar gyfer prosiectau lleol.

d) Cynllun Ardal Bala a Phenllyn.
Cafwyd adroddiad ar yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod cychwynnol.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd.
ii) Gorchymyn cau llwybrau troed cyhoeddus rhifau 1, 4, 5 ac 11, Y Bala, gwaharddiad defnydd dros dro.
iii) Biniau Halen - cafwyd cadarnhad fod Cyngor Gwynedd am ail gychwyn cyflenwi halen i'r biniau.
iv) Grantiau Caeau Chwarae – gofynnwyd i'r clerc i'w ddosbarthu i'r pwyllgorau lleol.

b) Un Llais Cymru.
i) Fersiwn ddiwygiedig o'r 'Model Brotocol ar gyfer Datrys Cwynion' - cytunwyd i'w fabwysiadwy'.

c) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Pecyn Plannu Coed Dathliadau Pen-blwydd PCE yn 70 oed.

ch) Dŵr Cymru.
i) Diweddariad ar y gwaith diogelwch ar Argae Llyn Celyn.

d) Amrywiol.
i) Cylch yr Iaith – gwrthwynebu ceisiadau cynllunio ar sail perygl i'r Gymraeg.
ii) Cymdeithas yr Iaith - Cais i gefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai - cytunwyd i arwyddo'r llythyr.
iii) Triathlon Y Bala - cytunwyd i gefnogi'r bwriad o gynnal y triathlon eto yn 2022.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-
C21/0920/04/CR - Amnewid 5 ffenestr fodern gyda rhai traddodiadol ayyb. Fron Heulog, Llandderfel.
NP5/63/227A – Dymchwel garej gyda tho flat ac adeiladu estyniad dau lawr i'r ochr. Ty'n y Golau, Frongoch.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
Cyflog a Chostau'r Clerc (Gorff-Medi), TWE, Ffi'r Gofrestr Tir.

c) Ffioedd HSBC.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth ar-lein.

**vii) Materion lleol.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwyn canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Dwr yn llifo ar draws y ffyrdd, ar y A4212 yn Frongoch ger cyffordd y B4501, ar y B4501 ei hun, ar y trofeydd cyn Wern Fawr ac wrth Neuadd Mynach ac ar y B4401 gyferbyn a Bryn Melyn Llandderfel.
ii) Coed yn gwyro i'r ffordd ger Ty'n Bwlch, Glanrafon.
iii) Pryder am weledd gyrwyr sy'n ymuno a'r A494 o gyffordd Bethel.
iv) Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r angen i drwsio Pont Llandderfel a'r wal gyferbyn a Llwynbrain, Cwmtirmynach.
v) Cyflwr y ffordd ger Aefren, Llanfor.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Lun, Ionawr 10fed am 7.30 y.h. dros Zoom.



Arwyddwyd: ………………………………………….          Dyddiad: …………………………………..